**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 18 Tachwedd 2020 am 10.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | J W Jones | H M Morris |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Rachel Brooks | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Pamela Cole | Uwch-arweinydd ADY |
| Melisa Perry | Cyfreithiwr Dan Hyfforddiant |
| Cath Swain | Rheolwr Trafnidiaeth Integredig |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice a/ac J A Hale

---

**18 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol gan aelodau.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**19 Dinas a Sir Abertawe - Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.**

Penderfynwyd nodi Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Dinas a Sir Abertawe.

**20 Llywodraeth Cymru - Teithio gan Dysgwyr - Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol.**

Penderfynwyd nodi Darpariaeth Statudol ac Arweiniad Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr Llywodraeth Cymru.

**21 Gwahardd y cyhoedd.**

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn

Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar yr agenda.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 22 Apêl Cludiant i'r Ysgol

Clywodd y Pwyllgor apêl gan riant DR.

Cyflwynwyd yr apêl yn erbyn penderfyniad yr adran mewn perthynas â chymhwysedd am gludiant am ddim o'i gyfeiriad cartref i Goleg Gŵyr Abertawe.

Cyflwynodd rhiant DR sylwadau llafar i'r Pwyllgor i gefnogi ei chyflwyniadau ysgrifenedig ac amlinellodd amgylchiadau penodol ei hapêl a oedd yn ymwneud ag anabledd ac anghenion addysgol arbennig y plentyn a'i hamgylchiadau teuluol presennol.

Gwnaeth swyddogion yr adrannau Addysg a Chludiant sylwadau llafar hefyd i gefnogi eu cyflwyniadau ysgrifenedig.

Amlinellwyd y math o gludiant am ddim y mae'r awdurdod yn ei ddarparu i fyfyrwyr coleg a'i brif wahaniaethau i ddarpariaeth cludiant i'r ysgol (bysiau mini nid tacsis) a manylwyd arnynt gan y swyddog cludiant i'r pwyllgor.

Gofynnodd aelodau'r pwyllgor gwestiynau amrywiol i'r apelydd a swyddogion, a ymatebodd yn unol â hynny.

Ystyriodd y Pwyllgor yr holl gyflwyniadau llafar ac ysgrifenedig yn llawn.

**Penderfynwyd**

1) Caniatáu'r apêl ar ran DR a darparu cludiant am ddim i DR i Goleg Gŵyr yn amodol ar adolygiad ar ddiwedd y flwyddyn academaidd gyfredol.
2) Bod y rhiant yn cael ei annog i wneud cais am docyn bws rhatach ar gyfer DR wrth symud ymlaen.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.41 am

**Cadeirydd**